

Mae yn ein dwylo ni

I gyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol ac i gefnogi'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol, mae'r sefydliadau isod yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg wedi creu Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol (TEMCDThRh) 2018-2023 dan yr enw 'Mae yn ein dwylo ni'. Mae'r daflen hon yn egluro ein cynlluniau.

Mae'r materion yr ymdrinnir â nhw'n cynnwys: cam-drin domestig, trais rhywiol, camfantasio rhywiol (gan gynnwys yn y diwydiant rhyw), caethwasiaeth fodern, priodas orfodol, anffurfio organau cenhedlu benywod (AOCB), camfanteisio'n rhywiol ar blant (CRhB), stelcio ac aflonyddu rhywiol. Gall y rhain effeithio ar fenywod, dynion, plant a phobl ifanc, ond rydym yn cydnabod mai menywod yr effeithir arnynt yn bennaf.

Rydym am sicrhau bod: Pobl sy'n byw, gweithio ac astudio yn ein rhanbarth, a phobl sy'n ymweld â hi, yn cael cyfle i fyw bywydau positif, annibynnol, heb drais a chamdriniaeth yn effeithio arnynt..

Rydym yn bwriadu:




Paratoi

Gweithio ynghyd i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu hysbysebu ac ar gael ledled Caerdydd a Bro Morgannwg



Ymlid

Sicrhau bod y rheiny sy'n cyflawni trais a chamdriniaeth yn atebol am eu hymddygiad



Atal

Gweithio gyda phawb i godi ymwybyddiaeth o, a herio, agweddau ac ymddygiadau a allai arwain at VAWDASV



Amddiffyn

Gwella diogelwch dioddefwyr a'u plant



Cefnogi

Sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion dioddefwyr ac yn ystyried ffyrdd newydd o weithio

Sut rydym yn bwriadu gwneud hyn:

- Dangos bod TEMCDThRh yn bwysig i bob sefydliad ledled Caerdydd a Bro Morgannwg
- Sicrhau bod sefydliadau'n gwneud yr hyn mae angen iddyn nhw ei wneud i ddiogelu a rhoi cymorth i dioddefwyr
- Gwella'r cydweithio rhwng sefydliadau ar hyd a lled Caerdydd a Bro Morgannwg

- Rhoi mwy o gymorth i ddioddefwyr sy'n mynychu achosion llys
- Ystyried gwahanol ffyrdd o roi cymorth i rai sy'n brifo eraill er mwyn mynd i'r afael â'u hymddygiad, a'i newid
- Darparu rhagor o wybodaeth i'r cyhoedd am TEMCDThRh a ble i gael help
- Helpu rhagor o ddioddefwyr i adrodd wrth yr heddlu am eu profiadau

- Codi ymwybyddiaeth am TEMCDThRh mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion
- Hyfforddi staff i helpu rhagor o bobl i ddatgelu eu profiadau
- Rhoi cymorth i ddioddefwyr, gan gynnwys plant, i gael mynediad i wasanaethau'n gynt a gwneud i'r gwasanaethau ymateb yn gynt

- Codi ymwybyddiaeth o gynlluniau sy'n gallu helpu pobl pan fônt yn gofidio am TEMCDThRh
- Sicrhau bod llety argyfwng ar gael i'r rhai â'r angen mwyaf
- Rhoi cymorth i ddioddefwyr drwy brosesau'r llys troseddol a theuluol
- Gwella diogelwch yn y cartref a mesurau diogelwch

- Sefydlu gwasanaeth i ddioddefwyr gwrywaidd
- Gwella gwasanaethau i bob dioddefwr
- Cael rhagor o fodlau rôl gwrywaidd ar gyfer plant a phobl ifanc
- Ymchwilio i, a datblygu, gwasanaethau cymorth i deuluoedd
- Gweithio gyda goroeswyr o bob math o TEMCDThRh i wella gwasanaethau



GIG
CYMRU
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



Cwmni Adsefydlu Cymunedol
Cymru
Wales
Community Rehabilitation Company
Gweithredir gan / Operated by Working Links



National
Probation
Service

